

Y Gann

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 3.8 milltir (6.1 km) 2 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth St Ishmaels 315/316,
*Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Aber llanwol, llwybr yr arfordir, caeau a da byw, graddio canolig, coed,
1.1 milltir (1.75 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Cwm coediog ym Monk Haven • wal gastellog • adar coetir,
rhydwy, hwyaid ayb ar yr aber


MWY O WYBODAETH: Edrychwch ar y tablau llanw ar gyfer y daith ar yr aber a'r traeth

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- ● ● ● Llwybr Cylch
- — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- — — — Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus ym mhentref
(tymhorol)
- Bus Safle Bws



Y Gann

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 3.8 milltir (6.1 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth St Ishmaels 315/316, *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM822066

Mae pâr o finocwlars yn ddefnyddiol iawn ar y daith hon sy'n eich arwain chi ar hyd glannau'r Gann, un o safleoedd gorau Sir Benfro am wylïo adar, yn ogystal ag archwilio'r ardaloedd gwledig a'r arfordir i'r gorllewin o bentref St Ishmaels.

Mae'r grib hir o raean bras a elwir yn Pickleridge a'r pwll cyfagos yn gynefin anarferol ar gyfer bywyd gwylt, ac mae'n cael ei fwydo trwy gydol y flwyddyn gan nentydd o ddŵr croyw ond hefyd yn cael ei foddï gan y môr pan fydd y llanw'n uchel.

Mae'r llwybr yn ymylu ar y dyddodiad anferth o dywod a graean sydd wedi casglu ar ymyl deheuol haenen iâ Môr Iwerddon rhyw 17,000 o flynyddoedd yn ôl. Nid nodweddion naturiol yw'r pyllau sydd wedi gorlifo ac sy'n denu hwyaid a gwyddau; fe'u crëwyd pan yr oedd angen deunydd adeiladu ar gyfer safleoedd y Llu Awyr Prydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar benrhyn Dale ac yn Nhalbenni.

Mae rhydwy'r ac adar gwylt hefyd yn cael eu denu at y tir bwydo cyfoethog yn y Gann ei hun ac i forfa heli'r aber bach. Yn ystod yr Haf, gellir gweld hwyaid yr eithin, piod y môr, ciachod, y pibydd coesgoch a'r pibydd coeswyrdd yn aml ac yn yr Hydref mae'r coegylfinir a channoedd o linosod a phibyddion y waun yn mudo yma.

Mae uchafbwyntiau'r Gaeaf o ran yr adar yn cynnwys grŵp mawr o sawl cant o ylfinirod sy'n clwydo ar y Gann.

Trwy gydol y flwyddyn, chwiliwch am newydd-ddyfodiad i arfordir Penfro, y crëyr bach copog. Mae'r aderyn yn edrych fel crëyr bach, gyda choesau hir a phig fel cylllell ond plu gwyn llachar.

Mae'r llwybr hefyd yn cynnwys bae bach Monk Haven, sy'n cael ei enw o fynachdy Cristnogol cynnar a oedd gerllaw, medde nhw. Roedd y porthladd yn arfer bod yn fan glanio ar gyfer pererinion a deithiau i Dyddewi.

Mae Haydn Garlick, Cyn Barmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Dyma daith dda iawn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn os ydych chi'n hoffi adar, ond yn enwedig yn y Gwanwyn a'r Hydref pan fydd y mudwyr ar daith."

Mwy o wybodaeth: Edrychwch ar y tablau llanw ar gyfer y daith ar yr aber a'r traeth.